Y Diweddaraf am Gynllun Organig Cymru
27 Hydref 2008

Canolfan Organig Cymru

- Yr wythnos ddiwethaf, cadarnhaodd Elin Jones, y Gweinidog Materion Gwledig, y byddai'r 1,000 o ffermwyr sydd wedi gwneud cais i'r Cynllun Ffermio Gwledig ar Ffurflen Gais Sengl 2008, ac sydd wedi bodloni gofynion ardystio a gofynion eraill y cynllun, yn cael cymorth.
- Yn 2009, bydd nifer yr ymgeiswyr newydd i'r CFfO yn cael ei gyfyngu i 100. Yn y dyfodol, dylai ffermwyr wneud cais i'r cynllun cyn dechrau'r broses trawsnewid fel y gallant gael gwybod yn iawn a fyddant yn cael cymorth ai peidio. Bydd hyn yn eu galluogi i wneud penderfyniadau busnes cytbwys mewn da bryd.
- Nid yw'r manylion ynglŷn â sut y bydd y penderfyniadau hyn yn cael eu gweithredu yn eglur iawn ar hyn o bryd. Byddant yn cael eu paratoi mewn ymgynghoriad â Chanolfan Organig Cymru ac Undebau'r Ffermwyr yn ystod yr wythnosau nesaf. Ni fydd y Cynllun Ffermio Organig ar agor i ymgeiswyr newydd am gyfnod tra bo'r broses yn mynd yn ei blaen. Ond fe fydd yn ailagor mewn pryd i alluogi ffermwyr i wneud cais am gymorth yn 2009.
- Yn seiliedig ar batrymau cyfredol a'r nifer a fanteisiodd ar y Gwasanaeth Gwybodaeth am Drawsnewid Organig, cred Canolfan Organig Cymru y bydd 100 o gytundebau yn ddigonol ar gyfer 2009. Ond bydd y ffermwyr hynny sy'n dechrau trawsnewid cyn i fanylion y cynllun ddod yn eglur yn gwneud hynny ar eu cyfrifoldeb eu hunain.

Mae testun llawn y datganiad i'r wasg i'w weld isod.

W-081087-RA
Dydd Mercher 22 Hydref 2008

Cefnogaeth gadarn i ffermio organig yng Nghymru

Mae Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, wedi cyhoeddi y bydd cymorth ariannol ychwanegol gwerth £6.8 miliwn ar gael i sector ffermio organig datblygol Cymru. Mae'r cyhoeddiad hwn yn golygu bod modd rhoi cymorth ariannol i bob un o'r ceisiadau i'r Cynllun Ffermio Organig eleni, ac y gellir ehangu cynllun 2009 o 100 o geisiadau ychwanegol.

Meddai'r Gweinidog:

> Mae gan ffermio organig ran bwysig iawn i'w chwarae yn nyfodol y diwydiant ffermio yng Nghymru. Rhaid inni fanteisio ar bob cyfle i ddatblygu Cymru fel ffynhonnell o fwyd o ansawdd uchel, sy'n cael ei gynhyrchu mewn ffordd amgylcheddol-gynaliadwy.
>
> Yn gyfan gwbl, mae bron i 1,000 o ffermydd wedi gwneud cais i ymuno â'r Cynllun Ffermio Organig newydd, gan gynnwys tua 400 ers mis Ebrill 2008. Mae'n golygu bod tua 8% o Gymru bellach naill ai'n gyfan gwbl organig neu yn y broses o droi'n organig.
>
> Yn fy marn i, mae'n bwysig iawn fod pob un o'r 1,000 o ffermwyr sydd wedi troi'n organig yn cael cymorth ariannol o dan Gynllun Ffermio Organig Llywodraeth y Cynulliad. Maent wedi gwario arian ar y broses ac maen nhw'n haeddu cefnogaeth.

Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.

Rwyf wedi penderfynu trosglwyddo cyllid i'r Cynllun Ffermio Organig, sy'n golygu cynnydd o £3.1 miliwn i £7.5 miliwn yn 2009-10 ac o £3.1 miliwn i £5.5 miliwn yn 2010-11. Bydd hyn yn fy ngalluogi i roi cymorth ariannol i holl geisiadau eleni, gyda'r taliadau cyntaf yn dechrau cyrraedd yn gynnar yr wythnos nesaf.

Mae'r Gweinidog wedi edrych ar y dewisiadau ar gyfer addasu'r proffil gwario ar draws portffolio cynllun Echel 2 a fydd yn caniatáu i mi drosglwyddo cyllid i'r Cynllun Ffermio Organig. Ar ôl rhoi ystyriaeth fanwl i'r holl oblygiadau, mae'r Gweinidog wedi penderfynu cymryd y camau canlynol;

- Bydd y Cynllun Ffermio Sensitif i Ddalgylch Afon yn cael ei ohirio o ddiwedd 2009 tan fis Ebrill 2010. Ni fydd gostyngiad yn nifer y dalgylchoedd na goblygiadau andwyol i Barthau Perygl Nitradau.

- Bydd unrhyw gytundebau Tir Cynnal newydd pellach yn cael eu hatal dros dro tra'n disgwyl canlyniad yr adolygiad o gynllun Echel 2. Bydd hyn yn cynnwys y ffermwyr hynny a wnaeth gais i ymuno â'r cynllun ar ffurflen y Cais Sengl eleni.

- Bydd ceisiadau i Dir Gofal nad ydynt yn cyrraedd y 100 pwynt sy'n ofynnol i ymuno â'r cynllun, yn cael eu gwrthod. Bydd hyn yn sicrhau mai'r ffermydd hynny sy'n cynnig y canlyniadau gorau i'r amgylchedd yn unig fydd yn cael eu datblygu. Mae hyn yn arbed £3.8 miliwn (£2.8 miliwn i Lywodraeth y Cynulliad) dros ddwy flynedd, gyda gostyngiad dilynol yn nifer y ffermydd a dderbynnir i'r cynllun.

- Hefyd,er mwyn sicrhau bod pob ffermwr sy'n ystyried troi'n organig yn gwybod a fydd cymorth ariannol ar gael iddo ai peidio, dywedodd y Gweinidog y dylai ffermwyr wneud cais yn y dyfodol i Lywodraeth y Cynulliad am arian cyn mynd ati i droi'n organig. Bydd hyn yn golygu y gellir rhoi ymrwymiad i ffermwyr y byddant yn cael eu hariannu neu y rhoddir cyngor clir iddynt na fyddant yn cael cymorth ariannol, gan eu galluogi felly i wneud penderfyniadau busnes cytbwys.

Bydd yr union fanylion ynghylch sut y caiff hyn ei roi ar waith yn cael eu paratoi ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid, yn ystod yr wythnosau nesaf. Tan hynny, bydd y Cynllun Ffermio Organig ar gau i unrhyw geisiadau pellach.

Nodiadau

Cyflwynwyd y Cynllun Ffermio Organig newydd yn Nhachwedd 2007, ac fe'i lluniwyd i hybu'r sector organig drwy ddarparu cyfraddau taliadau uwch, cymorth gyda chostau ardystio, a chymorth ar gyfer garddwriaeth organig.

Clustnododd Llywodraeth Cynulliad Cymru £3.1m i'r cynllun yn 2009-10 a 2010-11. Mae hyn yn ddigon i ganiatáu i 100 o ymgeiswyr newydd ymuno â'r cynllun bob blwyddyn.

Cyhoeddwyd gan Ganolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion SA23 3AL. Ffon 01970 622248
Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Canolfan Organig Cymru
Organic Centre Wales

Y Cynllun Ffermio Organig (CFfO) – diweddariad Awst 2008

Beth yw'r Cynllun Ffermio Organig?

Mae'r Cynllun Ffermio Organig yn gynllun amaeth-amgylcheddol sy'n cynnig taliadau i ffermwyr yng Nghymru i'w cynorthwyo i newid i ffermio'n organig gyda'r amcan o wneud lles i'r amgylchedd. Y mae'n rhan allweddol o Gynllun Gweithredu Organig Cymru, ac un o amcanion y Cynllun hwnnw yw sicrhau bod rhwng 10 a 15 % yn fwy o dir amaethyddol o dan reolaeth organig yng Nghymru erbyn 2010. Noddir CFfO gan yr UE a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhan o Gynllun Datblygu Gwledig 2007-2013 ar gyfer Cymru.

Sut y mae'r cynllun newydd yn edrych?

Mae'r CFfO yn gynllun pum mlynedd. Bydd ffermwyr sy'n hawlio taliadau am gaeau sy'n cael eu trosglwyddo (am ddwy flynedd fel rheol) yn derbyn cyfradd uwch i wneud iawn am gostau uwch y broses drosglwyddo.

Mae'r cynllun yn cynnwys nifer o welliannau o'i gymharu â'r cynllun blaenorol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Taliad uwch i gychwyn er mwyn helpu gyda chostau ardystio a chasglu gwybodaeth;
- Hawl i gyfradd talu tir âr i unrhyw dir sy'n tyfu cnydau âr (cyfyngid hwn o'r blaen i dir a oedd yn gymwys ar gyfer AAPS yn unig);
- Taliadau ar gyfer garddwriaeth organig er mwyn annog rhagor o ffermwyr i dyfu llysiau caeau i gynyddu'r cyflenwad lleol o gynnyrch organig ffres;
- Llai o fiwrocratiaeth gan gynnwys hawliadau blynyddol ar y Ffurflen Gais Sengl, cysylltiadau rhwyddach gyda Thir Gofal a Thir Cynnal, a diddymu didyniadau taliadau dwbl.

Beth ddylwn i wneud er mwyn ymuno â'r cynllun?

I ymuno â'r cynllun, dylai ffermwyr yn gyntaf wneud cais trwy lenwi ffurflen gais y Cynllun Ffermio Organig a'i dychwelyd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cynulliad Cymru. **Yn ogystal â** chael tystysgrif gan Gorff Ardystio, dylech wedyn gwneud hawliad am daliadau blynyddol ar eich Ffurflen Gais Sengl (dyddiad cau 15 Mai 2009).

Cyfraddau talu

Mae'r cyfraddau talu'n amrywio yn ôl y defnydd a wneir o'r tir, ac fe'u crynhoir yn y tabl isod:

	Cyfraddau Talu Blynyddol	
	Wrthi'n trosglwyddo	Hollol organig
Taliad cychwynnol	£1,000	£500
Taliad fesul hectar (i 300 hectar)		
Glaswelltir	£150	£40
Cnydau âr	£150	£60
Cnydau garddwriaethol	£150	£200
Ffrwythau coed	£200	£200
Glaswelltir eang a thir dros 300 ha*	£20	£10
Coedtir pori	£20	£10

*Diffinnir 'glaswelltir eang' fel hyn: glaswelltir parhaol mewn lleiniau o 25 hectar neu fwy mewn ardal o dan anfantais ddifrifol a rhostiroedd; adfywiad naturiol; corsleoedd/corsydd; morfeydd heli; rhedyn; prysgoed gan gynnwys llwyni eithin a mieri.

Cyhoeddwyd gan Ganolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion SA23 3AL. Ffon 01970 622248

Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.

Gallwch gyflwyno isafswm o 1 hectar ac uchafswm o 300 hectar i'r cynllun ar y cyfraddau uwch, ond nid oes terfyn i faint o 'laswelltir eang' y gallwch ei gyflwyno. Bydd uchafswm o 20 hectar yn derbyn taliadau ar y gyfradd cnydau garddwriaethol a pharhaol. Nid yw tir comin fel arfer yn gymwys, er y gall unig borwyr weithiau ymgeisio. Cysylltwch â'ch swyddfa ranbarthol a gadarnhau.

Sut y mae'r broses yn gweithio?

Mae ffurflenni cais i ymuno â CFfO i'w cael gan eich Swyddfa Adrannol (gweler y cyfeiriadau isod). Mae'n rhaid cyflwyno'r cais cyn 15 Mai 2009 i'ch galluogi chi wneud hawliad am daliadau ar Ffurflen Gais Sengl (FfGS) 2009. Unwaith y dychwelir ac y derbynnir eich cais, a mor belled ag y bydd amodau cyllid yn caniatau, gallech dderbyn cynnig i ymuno â'r Cynllun gyda Rheolau'r Cynllun manwl gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dylech ystyried y telerau hyn yn ofalus ac, os ydych yn cytuno â hwy, dylech arwyddo a dychwelyd y cynnig. Sylwer bod hwn yn ymrwymiad ffurfiol sy'n cynrychioli cytundeb cyfreithiol rhyngoch chi a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Sut fydda' i'n cael fy nhalu?

Mae'n rhaid i chi wneud hawliad blynyddol am eich taliadau CFfO ar eich FfGS drwy roi tic gyferbyn â Chwestiwn 11 yn Adran 2 ac o dan y golofn Organig ar gyfer caeau unigol yn Adran 8. Mae'n rhaid i chi gyflwyno'r ardystiad organig gwreiddiol a'r dogfennau rhestr caeau i Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel bo ganddynt brawf fod y tir yn cael ei reoli'n organig.

Tir comin: os yw eich tir wedi cael cod CL99 ar y FfGS ac yr ydych yn unig borwr, mae angen i chi ddatgan y tir hynny yn Rhan 7, ac ysgrifennu ar 'Tudalen Gwybodaeth Ategol FfGS' eich bod ag unig defnydd y tir, ac eich bod am i'r tir (angen manylu) gael ei neilltuo i chi, at ddibenion hawlio'r CFfO. Dylid nodi nad yw tir wedi'i rannu yn gymwys i'r CFfO – os yw tir comin wedi'i dynnu o Ran 8 o'ch FfGS ac yr ydych yn ei roi yn ôl, gallwch gael eich cosbi am or-hawlio.

Os nad yw'r ardystiad organig na'r rhestr o gaeau gennych wrth gyflwyno eich FfGS, gallwch gyflwyno'r wybodaeth ar ôl y dyddiad hwn, ond fe ddylech wneud hyn erbyn 31 Gorffennaf, neu ni fyddwch yn gymwys i dderbyn taliadau.

Mae'n bosibl y bydd rhai ffermwyr sydd wedi gwneud cais i ymuno â'r CFfO heb dderbyn llythyrau cynnig cyn iddynt gwblhau'r FfGS. Mewn achos o'r fath, gallwch wneud eich hawliad CFfO ar eich FfGS. Ond os ydych wedyn yn penderfynu peidio ag ymuno â'r cynllun, fe fydd yn rhaid i chi hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru eich bod yn dymuno diwygio eich FfGS neu fe fyddwch, o bosibl, yn cael eich cosbi.

Pryd fydda' i'n cael fy nhalu?

Ar gyfer hawliadau 2008, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu talu peth o'r taliadau CFfO o fis Medi ymlaen, a'r gweddill yn gynnar yn 2009. Gellir gwneud hynny dim ond ar ôl i'r holl wiriadau a chroeswiriadau gael eu cwblhau a'u cael yn foddhaol.

Pwy sy'n gymwys?

Mae ffermwyr sy'n cytuno i ffermio eu tir yn unol ag egwyddorion organig yn gymwys i ymuno ac sy'n cofrestru gyda chorff ardystio yn gymwys i ymuno â'r cynllun. Cyn i chi wneud eich hawliad, bydd yn rhaid ichi fod wedi cael eich archwilio gan gorff ardystio organig (gweler Ffeithlen Rhif 9 i gael manylion). Rhaid mai chi yw deiliad cyfreithiol y tir (naill ai fel perchennog neu denant) gyda chyfrifoldeb llawn am, a rheolaeth dros, y ffermio ar y tir hwnnw. Mae holl ffermwyr sydd yn ymuno â'r Cynllun yn rhwym wrth reolau llawn Croes Cydymffurfio. Ceir manylion am y rhain ar wefan Cynulliad Cymru yn http://new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingconnect/crosscompliance/?lang=cy neu gan eich swyddfa ranbarthol lleol.

Cyhoeddwyd gan Ganolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion SA23 3AL. Ffon 01970 622248
Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.

A oes unrhyw faterion y dylai tenantiaid fod yn ymwybodol ohonynt?

Mae'n rhaid ichi fod yn hollol gyfrifol am y tir tra byddwch yn rhan o'r cynllun. Petai eich prydles yn dod i ben a'r preswylwyr newydd yn dewis peidio ag aros yn y cynllun, bydd yn rhaid i chi ad-dalu'r arian a dderbynioch yn llawn, ynghyd â llog. Eleni (2008) gall landlordiaid hawlio'r FfGS, a ffermwyr y CFfO, ond mae hyn yn amodol ar adroddiad gan Lys Archwilwyr Ewrop: gweler y llyfryn ar Reolau'r FfGS, K2 tudalen 46, sy'n nodi na fydd y sefyllfa yma'n dderbyniol yn y dyfodol, o bosibl.

Fedra' i gyfuno'r CFfO â chynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill?

Gallwch. Gall y CFfO fod yn gytûn â chynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill, megis Tir Gofal a Thir Cynnal. Dylai ffermwyr sy'n rhan o'r cynllun Tir Gofal archwilio unrhyw gyfyngiadau ar reolaeth organig y gall eu cytundeb Tir Gofal eu hachosi.

Lle fedra'i gael cyngor ynglŷn â thrawsnewid organig?

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth Trosglwyddo Organig (OCIS) yn wasanaeth rhad ac am ddim sy'n eich helpu i ddeall goblygiadau trosglwyddo organig, ac sy'n eich galluogi i wneud penderfyniad cytbwys am ddyfodol eich fferm. Mae'r gwasanaeth yn rhoi hawl i ddefnyddio llinell gymorth dechnegol Canolfan Organig Cymru, pecyn gwybodaeth, a hyd at ddau ymweliad â'ch fferm i roi cyngor. I gofrestru, ffoniwch llinell gymorth Canolfan Organig Cymru: 01970 622100.

SYLWER MAI FFEITHLEN Y GANOLFAN YW HWN SY'N RHOI GWYBODAETH GYFFREDINOL, OND Y DYLAI CYNHYRCHWYR GYFEIRIO AT DELERAU AC AMODAU'R CYNLLUN GAN Y CYNULLIAD AM FANYLION, A BODLONI EU HUNAIN YN EU CYLCH CYN ARWYDDO AG YMUNO A'R CYNLLUN.

Manylion Cyswllt

Canolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion SY23 3AL
organic-helpline@aber.ac.uk ☎ 01970 622100 (Llinell Cymorth Dechnegol) 💻 www.organic.aber.ac.uk

Swyddfa Rhanbarthol (Caerfyrddin) Adeiladau'r Llywodraeth, Rhesdai Picton, Caerfyrddin SA31 3BT
☎ 01267 225300 Ffacs: 01267 235964

Swyddfa Rhanbarthol (Caernarfon) Adeiladau'r Llywodraeth, Penrallt, Caernarfon LL55 1EP
☎ 01286 674144 Ffacs: 01286 677749

Swyddfa Rhanbarthol (Llandrindod) Adeiladau'r Llywodraeth, Spa Road East, Llandrindod Powys LD1 5HA
☎ 01597 823777 Ffacs: 01597 828304

Cyhoeddwyd gan Ganolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion SA23 3AL. Ffon 01970 622248
Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.